



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynllun Iaith Gymraeg

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd

Rhagfyr 2007

Ynglŷn â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Asiantaeth y llywodraeth sy'n gyfrifol am lunio, dadansoddi a lledaenu llawer o ystadegau economaidd, cymdeithasol a demograffig y Deyrnas Unedig yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), gan gynnwys y mynegrif prisiau manwerthu, ffigurau masnach a data'r farchnad lafur, yn ogystal â'r cyfrifiad cyfnodol o'r boblogaeth ac ystadegau iechyd. Yr asiantaeth sydd hefyd yn gweinyddu'r broses statudol o gofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Cyfarwyddwr y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r Ystadegydd Cenedlaethol a'r Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr hefyd.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cefndir i'r sefydliad.....	5
Cynllunio a darparu gwasanaeth.....	6
Polisiau, deddfwriaeth a mentrau	
Darparu gwasanaethau	
Ein swyddogaethau a'n gwasanaethau rheoleiddio a wneir gan drydydd partion	
Safonau ansawdd	
Dyfarnu grantiau a benthyciadau	
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.....	7
Gohebiaeth	
Cyfathrebu dros y ffôn	
Cyfarfodydd cyhoeddus	
Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru	
Cofrestru digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru'n ddwyieithog	
Arolygon cartrefi ac unigol	
Arolygon busnes	
Ein hwyneb cyhoeddus.....	11
Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosiadau a hysbysebu	
Cyhoeddiadau	
Gwefannau	
Ffurflenni a holiaduron a deunydd eglurhaol cysylltiedig	
Hunaniaeth gorfforaethol	
Arwyddion yng Nghymru	
Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	
Datganiadau newyddion a chyswllt â'r cyfryngau	
Gweithredu'r cynllun.....	14
Staffio	
Recriwtio	
Hyfforddiant iaith	
Hyfforddiant galwedigaethol	
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	
Gweithio mewn partneriaeth	
Trefniadau mewnol	
Deddf Rhyddid Gwybodaeth	
Monitro	
Adolygu ac addasu'r cynllun	
Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant	
Atodiad A.....	17

Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

cynllun blaenorol i rym ar 4 Tachwedd 1998. Caiff y cynllun diwygiedig hwn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Dyma ein cynllun

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, cyn belled â'i fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae prif gorff y ddogfen yn cwmpasu'r gwasanaethau hynny y mae'r SYG yn eu darparu ac eithrio'r Cyfrifiad, heblaw lle y nodir fel arall. Ceir y manylion ar gyfer y Cyfrifiad yn Atodiad A.

Yn y cynllun hwn, ystyr yr ymadrodd cyhoedd yw unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r ymadrodd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn unigolion cyfreithiol, wedi'u cynnwys o fewn ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Paratowyd y cynllun o dan Adran 21 o'r Ddeddf ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth ein

Cefndir i'r sefydliad

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn asiantaeth weithredol ac adran o'r llywodraeth sy'n atebol i Ganghellor y Trysorlys. Mae ei gweithgareddau yn ystadegol a gweinyddol. Ar gyfer gwaith ystadegol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bodoli i wella'r broses o wneud penderfyniadau, ysgogi ymchwil a llywio trafodaeth o fewn llywodraeth a'r gymuned ehangach drwy ddarparu gwasanaeth ystadegol o safon. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal arolygon o fusnesau, cartrefi ac unigolion. Mae ei chynnyrch yn cynnwys:

- Cyfrifon Gwladol
- Ystadegau marchnad lafur
- Ystadegau poblogaeth
- Ystadegau busnes
- Ystadegau iechyd
- Ystadegau cymdeithasol
- Cyfrifiad – gweler Atodiad A.

Mae ei gwaith ystadegol yn cefnogi rheolaeth economaidd ganolog a ffurfio a monitro polisïau economaidd a chymdeithasol eraill.

Ar gyfer gwaith gweinyddol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bodoli i ddiogelu a chynorthwyo unigolion drwy weinyddu'r gwaith o gofrestru digwyddiadau allweddol bywyd. Mae hyn yn cynnwys llunio a chynnal ar ran yr Adran Iechyd gofrestr ganolog o bob claf a gofrestrwyd gyda meddyg teulu y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Swyddfa hefyd yn gyfrifol am weinyddu deddfwriaeth priodasau a phartneriaethau sifil a'r system o gofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau. Awdurdodau leol sy'n gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Cofrestru yn lleol.

Mae gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol gyfrifoldeb am weinyddu'r gwasanaeth cofrestru yn ganolog yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweinyddu'r gyfraith o ran defodau priodas a chofrestru priodasau a phartneriaethau sifil a'r gyfraith o ran

cofrestru genedigaethau a genedigaethau marw a marwolaethau. Mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol hefyd yn cynnal archif o bob genedigaeth, marwolaeth, priodas a phartneriaeth sifil sy'n digwydd yng Nghymru, ac, ar gais, mae'n rhoi tystysgrifau i aelodau o'r cyhoedd ac eraill.

Cyfarwyddwr y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r Cofrestrydd Gyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyflogi tua 3,800 o staff yn gweithredu yn Llundain, Casnewydd (De Cymru), Southport a Titchfield (Hampshire), a hyd at 1,200 o aelodau staff maes yn gweithio ar arolygon cymdeithasol.

Ar 1 Ebrill 2008 caiff Bwrdd Ystadegau newydd, sy'n annibynnol ar weinidogion, ei greu. Bydd y Bwrdd yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd a bydd yn gyfrifol am ddiogelu ansawdd yr holl ystadegau swyddogol. Daw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Swyddfa Weithredol o'r Bwrdd. O dan y trefniadau newydd ar gyfer annibyniaeth, caiff y cyfrifoldeb am y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ei drosglwyddo o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau, Asiantaeth Weithredol o'r Swyddfa Gartref.

Unwaith y daw annibyniaeth i rym, caiff y cynllun hwn ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill.

Cynllunio a darparu gwasanaeth

Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a, lle y bo'n bosibl, byddant yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol.

Os byddwn yn cyfrannu tuag at ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

Byddwn yn sicrhau, lle y bo'n bosibl, y bydd ein cyfraniad i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Darparu gwasanaethau

Fel arfer byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

At ddibenion y cynllun, rhennir busnesau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ddau gategori:

- Ystadegol ac Arall
- Cofrestru.

Bydd egwyddorion cyffredinol y cynllun yn berthnasol i'r ddau gategori oherwydd maint y cysylltiad uniongyrchol sydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol â'r cyhoedd wrth gyflawni ei chyfrifoldebau cofrestru.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn gyfrifol am gynnal Cyfrifiad 2011. Amlinellir yr egwyddorion o ran sut y caiff y Cyfrifiad ei gynnal yng Nghymru yn Atodiad A.

Cyfrifoldeb pob awdurdod unedol yw darparu'r gwasanaeth cofrestru yng Nghymru. Mae pob awdurdod wedi llunio Cynllun Cofrestru yn nodi ei drefniadau ar gyfer staffio a lleoliad ei swyddfeydd o fewn ei ardal.

Mae darparu'r gwasanaeth cofrestru yng Nghymru yn bartneriaeth rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol:

Mae'r Cofrestrydd Cyffredinol yn cyfarwyddo ac yn cynghori'r swyddogion cofrestru ar faterion cyfreithiol a thechnegol eu dyletswyddau.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am yr agweddau mwy ymarferol ac am sicrhau cydymffurfiaeth â safonau darparu gwasanaeth cyhoeddus lleol, gan gynnwys unrhyw safonau a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod hwnnw. Bydd SYG yn cefnogi hyn ac ni fydd yn gwneud unrhyw beth a fydd yn tansilio cynlluniau iaith Gymraeg awdurdodau lleol yng Nghymru.

Bydd swyddogion o'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (Arolygwyr Cofrestru) yn ymweld â chofrestryddion, cofrestryddion arolygol ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn ategu'r bartneriaeth.

Ein swyddogaethau a'n gwasanaethau rheoleiddio a wneir gan drydydd partion

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partion yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y contractau neu'r trefniadau hynny'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau o dan contract allanol, rhoi trwyddedau a chaniatadau eraill.

Safonau ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen.

Dyfarnu grantiau a benthyciadau

Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau o ran y defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch dyfarnu grantiau a benthyciadau.

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Fel arfer byddwn yn gwneud fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg yn union yr un peth â'r un ar gyfer ateb llythyr yn Saesneg.

Pan fyddwn yn dechrau gohebu gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon llythyr safonol neu gylchlythyr at sawl un yng Nghymru, bydd hwnnw'n ddwyieithog oni wyddom y byddai'n well gan bob un ei dderbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Pan fydd angen i ni gynhyrchu fersiynau o ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ar wahân, fel arfer byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd dogfennau amgaeedig a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd dogfennau amgaeedig a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth drwy ebost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Caiff pob gohebiaeth yn Gymraeg ar gopi caled y byddwn yn ei chyhoeddi ei llofnodi yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg.

Bydd pob gohebiaeth drwy ebost yn Gymraeg y byddwn yn ei chyhoeddi yn dangos llofnod electronig yn Gymraeg neu lofnod electronig dwyieithog yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg.

Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rheini sydd am ohebu â ni yn Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda'r Bwrdd, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau nad oes angen eu cyhoeddi

yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n hir iawn).

I'n cynorthwyo i gyrraedd y targedau hyn, gofynnir i chi gyfeirio eich llythyrau gydag ymholiadau ynglŷn â'n gweithgareddau ystadegol i'n swyddfa yng Nghasnewydd a'ch llythyrau am ein gwasanaethau cofrestru i'n swyddfa yn Southport:

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Caerdydd
Casnewydd
Gwent
NP10 8XG

ebost: info@statistics.gov.uk

The General Register Office
PO Box 118
Smedley Hydro
Trafalgar Road
Southport
PR8 2GQ

ebost: GRO.Communications@ons.gsi.gov.uk

Cyfathrebu dros y ffôn

Fel arfer byddwn yn sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

- Ystadegol ac arall (Casnewydd): 0845 601 3034
- Cofrestru: 0151 471 4575

Byddwn yn gwahodd gweddill ein staff yng Nghymru i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a defnyddio'r negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

Bydd galwyr sy'n cysylltu â'r prif rif ymholiadau ar gyfer y Swyddfa yng Nghymru yn cael cyfarchiad dwyieithog.

Bydd ein prif switsfwrdd yng Nghymru yn defnyddio neges ddwyieithog ar ei beiriant ateb.

Os yw'r galwr am siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio'r â'r ymholiad.

Os bydd galwr yn ffonio aelod o staff yn uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nid yw'r unigolyn sy'n cymryd yr alwad yn gallu gwneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.

Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad, rhoddir y dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, o gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu ebost.

Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth am wasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg.

Ni fyddai'n ymarferol i'n staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg oherwydd eu lleoliad.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Lle mae'r Swyddfa'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg yn gallu cyfrannu drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg, oni bai ein bod yn ymwybodol bod yr holl gyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a naill ai'n nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod ymlaen llaw ym mha iaith yr hoffent siarad.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n mynd i'r cyfarfodydd cyhoeddus pryd y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael a'n bod yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg.

Fel arfer byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg oni fyddwn wedi cadarnhau bod cyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (oni bai bod yr holl gyfranogwyr wedi defnyddio'r un iaith).

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn gofyn am eu dewis iaith cyn gynted â phosibl ac yn sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rheini sydd wedi dewis Cymraeg fel eu dewis iaith.

Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio offer fideogynadledda ac offer tebyg.

Ni fyddai'n ymarferol i'n staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yn Gymraeg oherwydd eu lleoliad.

Cofrestru digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru'n ddwyieithog

Gellir cofrestru pob genedigaeth, genedigaeth farw, marwolaeth, priodas a phartneriaeth sifil sy'n digwydd yng Nghymru yn Gymraeg, ac yn Saesneg, os gall y person sy'n rhoi'r wybodaeth ar gyfer y cofrestru wneud hynny yn Gymraeg ac y gall y cofrestrydd ddeall ac ysgrifennu Cymraeg.

Gellir hefyd gynnal seremonïau priodas a phartneriaeth sifil yng Nghymru yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gofynnir i gofrestryddion holi ymhob achos a yw'r person sy'n rhoi'r wybodaeth am y cofrestru yn dymuno i hynny gael ei wneud yn ddwyieithog. Arddangosir poster hefyd yn hysbysebu cyfleusterau cofrestru dwyieithog. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae ffurf y cofrestrriad, er enghraifft cofrestru marwolaeth a wneir ar sail tystysgrif Crwner ar ôl cwëst neu gofnod a wneir yn y

Gofrestr Gorchymyn Rhieni ar sail Gorchymyn Llys, yn dibynnu ar ba un a yw'r awdurdod sy'n eu cyhoeddi wedi cwblhau'r dogfennau yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg. At hynny, dim ond os yw'r meddyg ardystio wedi cwblhau'r dystysgrif feddygol yn Gymraeg a Saesneg y gellir cofnodi achos o farwolaeth yn ddwyieithog yn y gofrestr. Fodd bynnag, p'un a wnaed y cofrestrriad yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg ai peidio, bydd fformat rhagargraffedig y cofnod yn y gofrestr ac unrhyw dystysgrifau a gyhoeddir bob amser yn ddwyieithog. Mae'r holl ffurflenni a ragnodir ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.

Gellir rhoi gwybodaeth ar gyfer cofrestru unrhyw enedigaeth, genedigaeth farwneu farwolaeth yng Nghymru i unrhyw gofrestrydd yng Nghymru. Lle nad oes cofrestrydd sy'n siarad Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i ddirprwy neu gofrestrydd o ardal arall sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol.

Mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn nodi y gall pob genedigaeth, genedigaeth farw, marwolaeth, priodas a phartneriaeth sifil sy'n digwydd yng Nghymru gael eu cofrestru yn Saesneg yn unig neu yn Gymraeg a Saesneg a rhaid i unrhyw dystysgrif fod yn gopi gwir o'r cofnod yn y gofrestr. Nododd y Papur Gwyn 'Cofrestru Sifil: Newid Hanfodol' fwriad y Llywodraeth i ymestyn y gallu i gofrestru genedigaethau a marwolaethau yn ddwyieithog fel ei fod yn cynnwys digwyddiadau yn Lloegr. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n bosibl i ddogfennau gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig, Saesneg yn unig neu yn y ddwy iaith ar ôl cofrestru'n ddwyieithog.

Er mwyn gweithredu'r cynigion hyn, mae angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol. Y bwriad oedd cyflwyno'r newidiadau hyn drwy ddefnyddio pwerau gwneud gorchymynion Deddf Diwygio Rheoleiddio 2001 a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau) (Cymru a Lloegr) 2001 i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2004. Fodd bynnag, ni aeth y Gorchymyn ymlaen i'r ail gam graffu gan i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Arglwyddi a'r Pwyllgor Rheoleiddio yn Nhŷ'r Cyffredin ddod i'r casgliad nad oedd ymestyn y cynigion yn y gorchymyn yn ddefnydd priodol o bwerau gwneud gorchymynion Deddf 2001.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i geisio cyfleoedd deddfwriaethol i gyflawni'r diwygiadau hyn.

Arolygon cartrefi ac unigol

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, fel arfer byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar ohebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Cynhelir llawer o'r arolygon o gartrefi ac unigolion a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Lle bo'r sawl a gyfwelir yn nodi y dymunant i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, byddwn yn darparu cyfwelwyr sy'n siarad Cymraeg.

Rydym eisoes yn anfon llythyrau dwyieithog ymlaen llaw at ddarparu gyfweledigion yng Nghymru yn eu gwahodd i roi gwybod i ni a ydynt am gael eu cyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae ffurflenni a holiaduron hunanlenwi hefyd mewn fformat dwyieithog. Oherwydd y galw isel iawn, mae arolygon sy'n cynnwys cadw dyddiaduron, er enghraifft yr Arolwg Gwariant a Bwyd, ar gael yn Saesneg yn unig oherwydd anawsterau a'r gost o'u cyfieithu yn ôl i'r Saesneg cyn eu codio a'u prosesu. Fodd bynnag, pe bai'r galw'n codi am yr arolygon hyn, neu pe baent yn haws eu cynhyrchu (er enghraifft arolygon rhyngweithiol ar-lein), gallem ailystyried eu cynhyrchu yn Gymraeg a thrafod hyn â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Nodir y darpariaethau ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn Atodiad A.

Arolygon busnes

Ar hyn o bryd nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gallu darparu ffurflenni a holiaduron arolwg busnes dwyieithog i bob cwmni yng Nghymru am resymau technolegol ac ariannol. Bydd tudalen gyntaf ffurflenni a holiaduron arolwg busnes i gwmnïau yng Nghymru yn cynnwys brawddeg ddwyieithog yn cynnig fersiwn Gymraeg o'r holiadur ar gais. Rydym yn gweithio tuag at system lle y gall cwmni gofrestru dewis iaith ar gyfer pob arolwg a anfonir i'r cwmni. Pan ddaw hynny i rym, bydd pob ffurflen a holiadur a anfonir i'r cwmni hwnnw yn y dyfodol yn Gymraeg. Nid yw llawer o ddatblygiadau newydd ar gyfer casglu data oddi wrth fusnesau

unigol yn seiliedig ar dderbyn a chwblhau ffurflenni a holiaduron papur.

Mae defnydd o dechnoleg cyfnewid data electronig (EDI), y Rhyngrwyd, ffurflenni a holiaduron electronig, trosglwyddiad teleffonig deialu uniongyrchol a chysylltiad â phhecynnau meddalwedd cyfrifeg y busnes ei hun, yn peri problemau i'r SYG o ran darparu gwasanaeth dwyieithog. Ni fyddai'n rhesymol ymarferol i ni ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog.

Ein hwyneb cyhoeddus

Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg drwy wahodd y sawl fydd yn dod i'r cyfarfodydd i roi gwybod i ni am eu dewis iaith.

Fel arfer byddwn yn sicrhau y gwneir cyhoeddiadau i'r cyhoedd dros systemau sain yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosiadau a hysbysebu

Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunydd arddangos a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan fydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r un fformat, maint ac amlygrwydd ac ansawdd â'r un Saesneg ac y byddant ar gael ar yr un pryd ac y bydd yn hawdd cael gafael ar y ddwy fersiwn.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir yn y papurau newydd Saesneg (neu debyg) a ddsberthir yn bennaf neu yn gyfangwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac o'r un maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.

Trefnir hysbysebion teledu, sinema a radio yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

Fel arfer byddwn yn osgoi'r defnydd o isdeitlau Cymraeg, neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio trosleisio).

Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Wrth staffio stondinau arddangos ac arddangosiadau yng Nghymru, byddwn fel arfer yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, yn ôl yr angen.

Bydd unrhyw arddangosiadau clyweled, teithiau tywys sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Cyhoeddiadau

Fel arfer byddwn yn cynhyrchu cyhoeddiadau o ddiddordeb cyffredinol i'r cyhoedd yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd ac fel arfer byddwn yn sicrhau eu bod ar gael ar yr un pryd a'u bod yn hawdd cael gafael ar y ddwy fersiwn. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda Bwrdd Yr Iaith Gymraeg, i'n helpu i benderfynu pryd y dylid cyhoeddi deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os codir tâl am gyhoeddiad, ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn uwch na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris y fersiwn ddwyieithog yn fwy na fersiwn iaith unigol.

Bydd yr uchod yn gymwys hefyd i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, neu ar CD Rom neu fel arall.

Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn nodi sut y byddwn yn cynyddu argaeledd y cyhoeddiadau dwyieithog, dros amser.

Gwefannau

Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg.

Fel arfer byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau.

Pan fyddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, caiff y fersiwn Gymraeg ei chyhoeddi ar yr un pryd, os bydd ar gael.

Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan, dros amser.

Ffurflenni a holiaduron a deunydd eglurhaol cysylltiedig

Disgrifir yr ymagwedd i'w mabwysiadu ar gyfer holiadur Cyfrifiad 2011 a'r deunydd cysylltiedig yn Atodiad A.

Ac eithrio ar gyfer y Cyfrifiad, fel arfer byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a holiadur a'r deunydd eglurhaol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurfiau rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd - a byddwn yn sicrhau eu bod ar gael ar yr un pryd a'u bod yn hawdd cael gafeael ar y ddwy fersiwn. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Pan fyddwn yn nodi gwybodaeth am fersiynau Cymraeg o ffurflenni a holiaduron a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn nodi gwybodaeth am ffurflenni a holiaduron dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, oni bai ein

bod yn gwybod y byddai'n well gan bob un dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni a holiaduron ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i'n helpu i benderfynu pa bryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a holiaduron fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar unrhyw ddeunydd sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu fel cardiau busnes, bathodynau adnabod ar gyfer staff arolwg, cardiau, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch a gwahoddiadau.

Efallai y byddwn yn defnyddio brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

Arwyddion yng Nghymru

Fel arfer byddwn yn sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a'r arwyddion dros dro o fewn ffiniau eiddo'r Swyddfa yng Nghymru ac o fewn ein hardal dderbyn yng Nghymru, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn yn glynu wrth yr arfer hwn lle y gosodir arwyddion am y tro cyntaf, neu pan fyddwn yn gosod arwyddion newydd.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn gymwys i bob math o arwydd, gan gynnwys arwyddion electronig.

Bydd arwyddion dwyieithog yn dangos i'r rhai sy'n ymweld â swyddfeydd y sefydliad yng Nghymru fod siaradwr Cymraeg ar gael os oes angen.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff hysbysiadau Cymraeg eu rhoi mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd p'un a fyddant wedi'u cynhyrchu fel fersiwn ddwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Caiff swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol eu hysbysebu yn Gymraeg yn y cyfryngau Saesneg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni fydd y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, (ac os felly, bydd yr hysbysiad yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir rywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau newyddion a chyswilt â'r cyfryngau

Caiff datganiadau newyddion ar gyfer y wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru'n benodol eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, lle bo'r terfynau amser yn caniatáu hynny, neu yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n derbyn y datganiad.

Pan fyddwn yn rhoi datganiadau newyddion ar ein gwefan, byddwn fel arfer yn eu rhoi yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bônt ar gael.

Caiff pob datganiad i'r wasg a roddir i'r cyfryngau Cymraeg ei gyhoeddi'n ddwyieithog.

Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gynnal cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Gweithredu'r cynllun

Staffio

Mae angen i bob un o'n gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru allu cael gafael ar ddigon o siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd, caiff hyn ei nodi yn y disgrifiad swydd a'r hysbyseb ar gyfer y swydd.

Byddwn yn nodi meysydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliad i ganfod nifer, lefel gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg).

Anogir staff i ddysgu Cymraeg neu i wellau eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff canlyniadau'r ddau ymarfer hyn eu cymharu i nodi gweithleoedd lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddiant.

Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo staff sy'n gallu siarad Cymraeg i lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Byddwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau ieithyddol Cymraeg ymgeiswyr am swyddi a staff presennol ar gyfer swyddfeydd y tu allan i Gymru. Caiff hyn ei drafod o dan Recriwtio, isod.

Recriwtio

Pan fyddwn yn recriwtio staff cawn ein llywio gan y wybodaeth a gesglir drwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan Staffio uchod.

Pan ystyrir bod rhuglder yn Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, caiff hynny ei nodi yng nghymwyseddau'r swyddi a'r hysbysebion.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle yr ystyrir bod Cymraeg yn hanfodol, ond lle y gellir caniatáu amser iddo/iddi ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd, o fewn cyfnod y cytunir arno'n rhesymol yn amod cyflogaeth.

Os na ellir dod o hyd i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg addas ar gyfer swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol (neu tra bo ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg a benodwyd i'r swydd yn dysgu'r iaith), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle y darperir gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg o rannau eraill o'n sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle yr ystyrir bod y gallu i fod yn rhugl yn Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, o ran unrhyw swyddi sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried p'un a ddylai rhuglder yn Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol a chaiff hynny ei nodi yng nghymwyseddau'r swyddi a'r hysbysebion.

Hyfforddiant iaith

Anogir ein staff yng Nghymru i ddysgu neu wella eu gallu i siarad Cymraeg a byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd, neu sy'n delio â siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg. Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Hyfforddiant galwedigaethol

Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu yn Gymraeg drwy roi hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bo hynny'n bosibl.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bo hynny'n ymarferol, i ddatblygu gallu ein staff sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Caiff yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn ei ddiwallu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau y gallant ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth a gaiff ei llywio gan sefydliad arall, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog ein partneriaid i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Trefniadau mewnol

Bydd gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd y cyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith angenrheidiol i gyflwyno, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi ac yn diweddarau cynllun gweithredu manwl yn barhaus, y cytunir arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu hwn i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Bydd y cynllun ar gael i staff ar fewnrwyd y Swyddfa a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, lle y bo'n briodol, ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau yn y cynllun hwn.

Caiff y cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, a ddefnyddir gan ein staff eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer ein staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Pan fyddwn yn defnyddio cyfieithwyr allanol, byddwn yn sicrhau eu bod yn gyfieithwyr cymwys wedi eu hachredu gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Caiff unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nas ymdrinnir yn benodol ag ef yn y cynllun hwn, ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Pan gaiff cais Rhyddid Gwybodaeth ei dderbyn yn Gymraeg, bydd y llythyr eglurhaol a anfonir gydag unrhyw ymateb yn Gymraeg hefyd.

Os yw'r dogfennau y gwneir cais amdanynt eisoes ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu i'r ymgeisydd yn Gymraeg.

Yn unol â'r cynllun hwn, os dylai'r dogfennau y gwneir cais amdanynt fod ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu yn Gymraeg. Os bydd angen cyfieithiad o'r Saesneg, caiff ei wneud o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd.

Yn unol â'r cynllun hwn, os nad oes angen i'r dogfennau y gwneir cais amdanynt fod ar gael yn Gymraeg, cânt eu darparu yn yr iaith wreiddiol.

Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ofyn am grynodedb yn hytrach na chopi o'r ddogfen. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried cynhyrchu crynodedb byr lle y gwneir cais am hynny neu lle y credir bod hynny'n angenrheidiol, fel y gwneir gydag unrhyw gais Rhyddid Gwybodaeth. Fel arfer nid yw crynodedbau'n fwy nag ychydig o gannoedd o eiriau. Mewn achosion lle y gwneir cais am grynodedb yn Gymraeg, byddwn yn cynhyrchu'r crynodedb yn Gymraeg lle y bo'n ymarferol gwneud hynny, p'un a yw'r wybodaeth wreiddiol yn Gymraeg, Saesneg, neu mewn iaith arall.

Monitro

Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn ei gynllun gweithredu cysylltiedig.

Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan fyddant yn gofyn amdanynt, gan amlinellu cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn.

Adolygu ac addasu'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Fodd bynnag, oherwydd yr amserlen sydd ei hangen i gyflwyno prosesau a gweithdrefnau'r Cyfrifiad, efallai na fydd yn bosibl gweithredu unrhyw newidiadau mewn pryd ar gyfer gweithrediad Cyfrifiad 2011.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd yn rhaid i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig addasiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau,

neu i'r amgylchiadau lle yr ydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliant

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am wasanaethau'r SYG yng Nghymru, neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, i:

Pennaeth Cyfathrebu Allanol

Adran Gyfathrebu

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Adeiladau'r Llywodraeth

Heol Caerdydd

Casnewydd

Gwent

NP10 8XG

Neu drwy ebost i: Welsh.Lang.Unit@ons.gsi.gov.uk

Atodiad A

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am reoli'r Cyfrifiad deng mlynedd. Cynhelir y Cyfrifiad nesaf yn 2011. Wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ymrwmo i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Rydym wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth geisio cyflwyno Cyfrifiad llwyddiannus yng Nghymru. Ceisir cyngor gan ddefnyddwyr ynglŷn â chynnwys y Cyfrifiad a'r ffordd y caiff ei gynnal drwy Grŵp Cyngori ar y Cyfrifiad: Cymru, a chan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyfrifiad.

Mae'r canlynol yn cynrychioli'r prif egwyddorion a gaiff eu mabwysiadu ar gyfer cynnal Cyfrifiad 2011 yng Nghymru: mae llawer o'r manylion sy'n gysylltiedig â sut y cânt eu cyflawni yn cael eu datblygu o hyd.

- Hawl cyfreithiol i lenwi'r holiadur yn Gymraeg, ar gyfer ffurflenni a holiaduron ar bapur neu ar y rhyngwrdd.
- Caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni a holiaduron ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd ar sut i'w llenwi yn Gymraeg a Saesneg neu yn ddwyieithog eu dosbarthu i bob cartref yng Nghymru.
- Bydd nodiadau cyfarwyddyd yn Gymraeg a Saesneg neu yn ddwyieithog ar sut i gael holiadur Cymraeg ar gael i bob cartref yng Nghymru.
- Cardiau awdurdod dwyieithog ar gyfer staff maes.
- Caiff ymgyrchoedd recriwtio yng Nghymru eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg ac yn ddwyieithog, fel y bo'n briodol.
- Cynhelir ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn unol ag ymagwedd gyffredinol SYG a ddisgrifir ym mhrif gorff y ddogfen hon.
- Cyn belled â phosibl, staff maes dwyieithog yng Nghymru, yn arbennig mewn ardaloedd â chyfraddau uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Rheolwr Cyfrifiad dwyieithog i Gymru a, lle y bo'n bosibl, uwch reolwyr dwyieithog yng Nghymru.
- Cyfleusterau dwyieithog o ran cymorth i'r cyhoedd – ar gyfer y ganolfan gyswllt ac unrhyw gyfleuster cymorth ar y we.
- Adroddiadau dwyieithog am ganlyniadau ar gyfer Cymru.